Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Arolwg o ddeunyddiau wedi'u cyhoeddi sy'n addas ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith (i'w addysgu o fis Medi 2015)

# Arolwg o ddeunyddiau wedi'u cyhoeddi sy'n addas ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith (i'w addysgu o fis Medi 2015)

**Cynulleidfa**
Ysgolion ac ymarferwyr addysgu yng Nghymru; swyddogion gwella ysgolion; ymgynghorwyr her consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn darparu arolwg o ddeunyddiau addas sy'n berthnasol i'r cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith newydd yng Nghymru. Y disgwyliad yw y bydd llawer o'r deunyddiau hyn ar gael mewn ystafelloedd dosbarth a storfeydd adrannau Cymraeg ar draws Cymru. Pwrpas yr arolwg hwn yw adnabod deunyddiau addysgu addas y gall ysgolion barhau i'w defnyddio gyda'r TGAU Cymraeg Iaith newydd, i'w addysgu o fis Medi 2015.

**Camau i'w cymryd**
Gofynnir i athrawon ddefnyddio'r canllaw fel dogfen gyfeirio er mwyn dod o hyd i unrhyw ddeunyddiau presennol fydd ganddynt eisoes er mwyn cefnogi'r TGAU Cymraeg Iaith newydd.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau
Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663725
e-bost: QualsReform@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**
*Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (2012) www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

Ceir gwybodaeth am yr holl gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd a diwygiedig fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru i'w haddysgu o 2015 a thu hwnt ar wefan Cymwysterau Cymru yn www.cymwysteraucymru.org

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Bydd y ddogfen Saesneg yn cynnwys arolwg o ddeunyddiau wedi'u cyhoeddi sy'n addas ar gyfer TGAU Saesneg Iaith.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2015
WG24601
ISBN digidol 978 1 4734 3177 5

# TGAU CYMRAEG IAITH • MANYLEB I'W HADDYSGU O FIS MEDI 2015

## Arolwg o ddeunyddiau wedi'u cyhoeddi

## Cyflwyniad

Pwrpas yr arolwg hwn yw adnabod deunyddiau addysgu addas i baratoi dysgwyr at y cymhwyster TGAU Iaith newydd a ddyfernir yn 2017. Mae'r rhestr o ddeunyddiau a baratowyd yn adlewyrchu gofynion y fanyleb a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

Y sgiliau a asesir fydd Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu ac mae disgwyl i ymgeiswyr gael 'eu hysbrydoli, eu cymell a'u herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, gwerthfawr, sy'n rhoi boddhad.' Gan fod pwyslais ar baratoi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymdeithas, disgwylir i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth eang o destunau gan gynnwys testunau heriol a dynamig. Mae'r fanyleb yn 'hyrwyddo ymagwedd integredig at lafaredd, darllen ac ysgrifennu fel bod gwaith ysgrifennu a llafaredd yn cael eu hysgogi gan brofiadau darllen.' Pwysleisir mai'r nod yw annog ymgeiswyr i gynhyrchu testunau o safon wrth ymateb yn ysgrifenedig ac er mwyn cyflawni hyn bod angen astudio gwaith ysgrifenedig o safon nid yn unig fel paratoad ar gyfer yr Asesiad Darllen ond fel patrwm ysgrifennu i ddysgwyr.

Pwysleisia'r fanyleb yr angen i ddatblygu gallu'r dysgwyr i 'ddefnyddio'r Gymraeg fel dinasyddion gweithgar a gwybodus'. Wrth arolygu'r adnoddau addysgu sydd eisoes yn bodoli, gwelwyd bod deunyddiau llenyddol ac anllenyddol safonol wedi'u darparu yn y blynyddoedd diweddar ar destunau a nodir yn y fanyleb TGAU Cymraeg Iaith, fyddai'n atgyfnerthu addysgu cynnwys y pwnc. Mae rhai cyfresi e.e. Cyfres y Goleudy yn cynnig deunyddiau darllen a gweithgareddau defnyddiol ar gyfer datblygu sgiliau Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu ynghyd ag ymarferion gloywi a chywiro iaith a golygu testun. Wrth ddefnyddio adnoddau fel y rhain, bydd athrawon yn ymwybodol na fydd cwestiynau dadansoddi arddull yn y papur TGAU Cymraeg Iaith o'r flwyddyn 2017. Mae'r rhestr adnoddau yn nodi sawl cyfres o lyfrau darllen ffeithiol, apelgar heb weithgareddau cysylltiedig. Mae rhai yn cynnwys testunau di-dor, eraill ddarnau pytiog. Nid yn unig y bydd y rhain yn sbardunau da ar gyfer datblygu sgiliau Llafaredd ac Ysgrifennu ond byddant yn addas i ddatblygu a phrofi sgiliau PISA fel caffael gwybodaeth, crynhoi a dadansoddi ac ati. Ar gyfer ymarfer y sgiliau hynny, nodwyd yn y rhestr sbardunau a geir ar y we, gyda rhai yn cynnwys ymarferion cwestiynau aml-ddewis.

Yn y fanyleb newydd, nodir yn glir fod angen adeiladu ar y lefelau llythrennedd a ddatblygwyd gan y dysgwyr erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd. Yn y rhestr adnoddau enwir llyfrau a gwefannau defnyddiol er mwyn ymarfer sgiliau golygu, prawf-ddarllen a chywiro testun ac er mwyn ymgyrraedd at y safonau ieithyddol a ddisgwylir yn y tasgau ysgrifennu a llafar. Enwir hefyd adnoddau ar gyfer atgyfnerthu gwybodaeth dysgwyr am ofynion y ffurfiau ysgrifennu.

## Deunyddiau Addysgu CA4 (sy'n cynnwys gweithgareddau cysylltiedig)

**Sylfaenol**

**Heriol**

| Teitlau | Manylion cyhoeddi | Disgrifiad | Electronig |
|---|---|---|---|
| **Cyfres y Goleudy**<br><br>Teitlau:<br>Pigo Cydwybod – Nona Breese<br>Cyfathrebu – Nona Breese<br>Natur – Nona Breese<br>Rhyfel a Heddwch – Meinir Ebbsworth<br>Cymru a Chymreictod – Meinir Ebbsworth<br>Ieuenctid – Meinir Ebbsworth | [CAA) gol. Delyth Ifan, 2008/2009<br><br><br>ISBN: 9781845213183<br>ISBN: 9781845213701<br>ISBN:9781845212629<br>ISBN:9781845213190<br><br>ISBN: 9781845212636<br><br>ISBN: 9781845213718 | Ar gyfer disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.<br>Llyfrau sy'n cynnig sbardunau ffeithiol a ffuglennol ar chwe thema apelgar ac sydd yn ateb gofynion y fanyleb o ran datblygu'r dysgwyr yn "ddinasyddion gweithgar a gwybodus." Ceir gweithgareddau ac ymarferion i hybu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu gan gynnwys gweithgareddau er mwyn datblygu geirfa a meithrin cywirdeb ieithyddol. Gallai athrawon ychwanegu cwestiynau aml-ddewis, cloze ac ati er mwyn ymarfer y sgiliau darllen a asesir yn yr arholiadau newydd. | |
| Gweiddi<br>30 rhifyn | Tinopolis<br>2011 – 2014 | e-gylchgrawn sy'n trafod thema wahanol bob mis ac sy'n cynnig amrywiaeth o ddarnau llenyddol ac anllenyddol ynghyd â thasgau darllen, llafaredd ac ysgrifennu. Rhoddir sylw i ramadeg a gloywi iaith a cheir cwestiynau aml-ddewis ac ati yn rhai o'r rhifynnau diweddar. | e-gylchgrawn<br>http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-30/heriol/batio-ar-draws-y-byd.aspx |
| Deunyddiau i Gefnogi cyrsiau TGAU newydd 2015 | CAA<br>Mawrth 2015 | 50 tasg ysgogi<br>60 tasg golygu/prawfddarllen | Bydd y rhain ar wefan CAA a gwefan Hwb o fis Mawrth 2015 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sbardunau ac Ymarferion cwestiynau aml-ddewis<br>ar y themâu:<br>Ieuenctid<br>Cyfathrebu<br>Celf<br>Byd gwyddoniaeth<br>Addysg bersonol a chymdeithasol<br>Mannau diddorol<br>Byd gwaith<br>Pigo cydwybod<br>Chwaraeon | CAA / CBAC | Darnau darllen ynghyd â chwestiynau aml- ddewis ar destunau sy'n berthnasol i'r fanyleb newydd. | http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2012-2013/cymraeg/ymarferion-amlddewis/index.html |
| Jigso 1 – Nona Breese a Dafydd Roberts | Atebol – Chwefror 2010<br>ISBN: 9781907004254 | Ffeil a CD ar themâu megis yr amgylchedd, troi'n wyrdd, technoleg a byw'n iach. Cynnwys ddeunyddiau anllenyddol ar gyfer ysgogi trafodaeth. Anelwyd at CA3 ond gellid defnyddio'r adnodd hwn gyda darllenwyr anfoddog yn CA4. | CD Rom<br>Yn ychwanegol, ceir Pecyn Cefnogi Jigso 1 ar wefan Adnoddau CBAC. Cynnwys ymarferion sy'n seiliedig ar ofynion y Profion Darllen Cenedlaethol a phrofion PISA. |
| Jigso 2 - Nona Breese a Dafydd Roberts | Atebol Chwefror 2010<br>ISBN: 9781907004261 | Ffeil a CD sy'n cynnwys deunyddiau llenyddol ac anllenyddol ar themâu cyffuriau, byd gwaith, cymdeithas, gwrthdaro ynghyd â chyfoeth o faterion cyfoes eraill. Addas ar gyfer disgyblion CA4. | CD Rom<br>Yn ogystal, ceir Pecyn Cefnogi Jigso 2 ar wefan Adnoddau CBAC. Mae'r ymarferion yn cadw mewn cof ofynion y Profion Darllen Cenedlaethol a phrofion PISA. |
| Taro'r Targed – Bethan Clement | Gol. Rhiannon Davies<br>Canolfan Peniarth, Tachwedd 2011<br>ISBN: 9781908395001 | Ffeil sy'n llawn deunyddiau darllen difyr a gweithgareddau cyfoes ar gyfer disgyblion 14- 19 oed. Targedwyd yn wreiddiol at ddisgyblion oedd yn paratoi ar gyfer cymwysterau Lefel Mynediad neu Haen Sylfaenol TGAU Iaith. Ceir gweithgareddau sydd yn baratoad da ar gyfer y byd gwaith. | CD Rom |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llythrennedd Lefel Mynediad 14-19 | | Gweithgareddau rhyngweithiol sy'n defnyddio meddalwedd Fuse Creator. | Gwefan Hwb https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=llythrennedd%20lefel%20mynediad |
| Berw'r Byd<br><br>Ffuglen - Meinir Ebbsworth<br><br>Ffeithiol – Meinir Ebbsworth | Y Lolfa 2007( Adran Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)<br><br>ISBN:9780862439613<br><br>ISBN: 9780862439620 | Deunyddiau addysgol ar lefelau gwahanol i gefnogi datblygu sgiliau llafar, darllen ysgrifennu a meddwl yn CA3. Gellid defnyddio'r adnodd hwn gyda darllenwyr anfoddog CA4 gan ychwanegu cwestiynau aml-ddewis neu gwestiynau sy'n gofyn ymatebion byr er mwyn paratoi'r dysgwyr ar gyfer gofynion yr arholiadau newydd.<br><br>Unedau: Dyddiau Glas, Ar Dân ac Ynysig<br><br>Unedau: Dyddiau Glas, Tân ac Ynysoedd. | |
| Berw'r Byd | Y Lolfa 2007<br>ISBN: 9780862439663 | | CD rom sy'n cynnig gweithgareddau i gydfynd â llyfrau Berw'r Byd. |
| Berw'r Byd 2 - Tudur Dylan Jones, Meinir Ebbsworth<br><br>Ffeithiol<br><br>Ffuglen | Y Lolfa<br><br>ISBN: 9781847712394<br><br>ISBN: 9781847712400 | Deunydd addysgol ar gyfer datblygu sgiliau llafar, darllen, ysgrifennu a meddwl ar lefelau gwahanol yn CA3. Gellid defnyddio'r adnodd gyda darllenwyr anfoddog CA4 ac ychwanegu ato er mwyn ymarfer sgiliau darllen yr arholiadau newydd.<br><br>Unedau: Llaw, Lliw a Llefydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Targedu'r 3 -  Meinir Ebbsworth<br><br>Gramadeg<br><br>Darllen<br><br>Ysgrifennu | CAA 2008<br><br>ISBN: 9781845213015<br><br>ISBN: 9781845212759<br><br>ISBN: 9781845212766 | Ffeiliau o daflenni i'w llungopïo ar mwyn atgyfnerthu sgiliau sylfaenol llythrennedd disgyblion CA3. Gellid eu defnyddio ar gyfer ADY CA4. | CD Rom |
| Testun Trafod | ACCAC<br>gol. Wyn Abraham<br><br>ISBN: 9781903880815 | Llyfryn lliwgar sy'n cynnig gweithgareddau er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu. | |
| Cywain a Chyflwyno Gwybodaeth – Eleri Davies | Uned Iaith/ CBAC 1999<br>ISBN: 9781860853623 | Adnoddau i ddatblygu sgiliau casglu a chyflwyno gwybodaeth. Addas ar gyfer CA4 ac uwch. | |
| Archif CRAWC | Noddwyd gan Lywodraeth Cymru | 150 o erthyglau o'r cylchgrawn digidol gyhoeddwyd rhwng Hydref 2008 a Gorffennaf 2010. Adnodd CA3 ond gellid ei addasu yn arbennig ar gyfer darllenwyr anfoddog CA4. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=crawc |
| Clyw | Telesgop | Gwefan i ddatblygu sgiliau gwrando yn CA3 a CA4. Cynnwys glipiau sain sy'n seiliedig ar sawl maes ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Clyw |

## Deunyddiau Addysgu (heb weithgareddau cysylltiedig)

| Teitlau | Manylion cyhoeddi | Disgrifiad | Electronig |
|---|---|---|---|
| Deunyddiau Anllenyddol ar y themâu:<br><br>Cwsg<br>Ewthanasia<br>Dyfodol y Gymraeg<br>Alcohol<br>Gordewdra<br><br>gan<br>Non ap Emlyn<br>Hedd ap Emlyn<br>Nona Breese<br>(Bydd cyfanswm o 20 thema erbyn mis Mawrth 2015) | CAA<br>2014 – Mawrth 2015 | Deunyddiau addas fel tasgau ysgogi y gall y dysgwyr fynegi barn arnynt, crynhoi a dehongli gwybodaeth ohonynt a chroesgyfeirio. Maent yn ddelfrydol ar gyfer yr ymchwiliad unigol i'r Fagloriaeth Gymreig, Safon Uwch ac i gyd-fynd â'r fanyleb Cymraeg TGAU Iaith newydd. | www.aber.ac.uk/cy/caa/web-projects/deunyddanllenyddol |
| Cyfres y Fflam<br><br><br>Pecyn 1<br><br>Pecyn 2 | CAA 2012/2013<br>(gol. Delyth Ifan a Fflur Pughe)<br><br>ISBN: 9781845215181<br><br>ISBN: 9781845215194 | Dau becyn o 10 llyfr pen-i-waered sy'n trafod testunau o ddau gyfeiriad – o'r cyfeiriad llenyddol a'r anllenyddol. Testunau lliwgar, llawn delweddau sydd ar yr ochr anllenyddol yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd ddynamig gan ddefnyddio ffurfiau cyfoes e.e. blogiau, tudalennau gweplyfr, graffiau, rhestrau, cyfarwyddiadau, llinellau amser ac ati. Ceir cyfuniad o ddarnau pytiog a darnau di-dor y gellir eu defnyddio i werthfawrogi, i gywain gwybodaeth a dadansoddi, i gymharu testunau â'i gilydd ac i ysgogi trafodaeth. O'r ochr lenyddol, ceir cyfle i gyfuno a chrynhoi, dehongli themâu a syniadau a gwerthuso | CD o ffeiliau PDF |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Am wastraff!/ Cau'r Cae – Tom Lewis | ISBN: 9781845215026 | Yr amgylchedd. | |
| Byd bach/ Gwyn y gwêl... + Darren yn deud – Esyllt Maelor | ISBN: 9781845215101 | Teclynnau technolegol. | |
| Byd gwaith/ Profiad Paula – Mererid Llwyd a Sonia Edwards | ISBN: 9781845214845 | Galwedigaethol. | |
| Calon Cymru/ Y Farwolaeth Driphlyg – Janet Clement Thomas a Nicholas Daniels | ISBN: 9781845215033 | Cymru a Chymreictod. | |
| Chwaraeon Eithafol/Bawd y Diafol-Nona Breese | ISBN: 9781845214852 | Chwaraeon eithafol. | |
| Cymry Dramor/ Gadael – Mared Llwyd | ISBN: 9781845214814 | Mudo ddoe a heddiw. | |
| Dim Peryg?/ Gwilym a Menna + 2.08 a.m. - Nona Breese Manon Steffan Ros | ISBN: 9781845215019 | Perygl yn y gweithle. | |
| Dyffryn Efyrnwy/Cyfrinach Dau + Lledrith y Llyn – Karina Wyn Dafis | ISBN: 9781845215088 | Hanes bro. | |
| Epynt/ Ysbryd y Mynydd – Siân Eirug ac Annes Glynn | ISBN: 9781845214838 | Epynt ddoe a heddiw. | |
| Gwerth eich halen/Dyddiadur Ifan-Mared Llwyd | ISBN: 9781845214999 | Byd Gwaith | |
| Gwneud y Pethau Bychain/Dail Crin – Mared Llwyd | ISBN: 9781845215095 | Dyngarol/ elusennau. | |
| Hamdden/ Rhyddid – Tom Lewis | ISBN: 9781845214920 | Gweithgareddau hamdden. | |
| Hamddena Hwnt ac Yma/ Magu Adenydd – Mererid Llwyd ac Annes Glynn | ISBN: 9781845215071 | Hamdden a thwristiaeth. | |
| Mentro i Fyd Busnes/ O dan dy drwyn + Pili Pala – Siân Eirug a Meleri Wyn James | ISBN: 9781845215118 | Byd gwaith | |
| Merched yn wynebu her/ Dyddiadur Hanna Wyn – Catrin Stevens | ISBN: 9781845214807 | Merched yn y byd chwaraeon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Newid y Byd/ Neifion Jones a'r drws cwantwm – Bethan Wyn Jones a Nicholas Daniels | ISBN: 9781845215002 | Dyfeisiadau. | |
| Siopau Mân, Siopau Mawr/ Angel – Sonia Edwards | ISBN: 9781845214944 | Byd busnes. | |
| Tegwch i bawb/ Crys T – Manon Jones Maddock a Manon Steffan Ros | ISBN: 9781845214821 | Masnach Deg. | |
| Y Ddaear yn corddi/ Llion a Mahmoud – Bethan Clement a Manon Steffan Ros | ISBN: 9781845214760 | Daeargrynfeydd a'u heffaith. | |
| Yr Ochr Draw/ Yr eneth gadd ei gwrthod – Gareth F. Williams | ISBN: 9781845214937 | Byd Ysbrydion. | |
| **Cyfres Llyfrau Ffeithiol:**<br>(Addasiadau gan Esyllt Penri)<br><br>Anifeiliaid Peryglus<br>Peiriannau Mega<br>Byd Bregus<br>Antur a Her<br>Dirgel Fyd | CBAC- 1999 (Gwasg Addysgol Cymru)<br><br>ISBN: 9781899869091<br>ISBN: 9781899869077<br>ISBN: 9781899869084<br>ISBN: 9781899869060<br>ISBN: 9781899869053 | Llyfrau gwybodaeth lliwgar apelgar y gellir eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cywain gwybodaeth, gwerthfawrogi a chymharu testunau. Cyfeirlyfrau i ddarllenwyr anfoddog ac addas ar gyfer disgyblion ADY. | |
| **Cyfres Bwrlwm**<br>BMX a Beicio Mynydd<br>Eirfyrddio<br>Popeth am chwaraeon<br>Fformiwla Un - Frances Ridley addas. Gordon Jones<br>Nenblymio<br>Trychinebau Naturiol<br>Dringo<br>Ceir Cyflym - Frances Ridley addas. Lynwen Rees Jones<br>Arwyr a Dihirod - Alison Hawes addas. Lynwen Rees Jones | CAA 2010<br>ISBN: 9781845213534<br>ISBN: 9781845213503<br>ISBN: 9781845213527<br>ISBN: 9781845213565<br><br>ISBN: 9781845213572<br>ISBN: 9781845213473<br>ISBN: 9781845213558<br>ISBN: 9781845213497<br><br>ISBN: 9781845213497 | Llyfrynnau gwybodaeth lliwgar, sgleiniog mewn print weddol fras. Addas ar gyfer darllenwyr anfoddog. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Brandiau Cŵl – Jillian Powell addas. Gordon Jones<br>Ysglyfaethwyr – Jillian Powell addas Lynwen Rees Jones<br>Pêl Fasged – Alison Hawes addas. Gordon Jones | ISBN: 9781845213541<br><br>ISBN: 9781845213589<br><br>ISBN: 9781845213510 | | |
| **Cyfres BlinG**<br><br>Mentro Mentro – Elgan Philip Davies<br><br>Bywyd Gwyllt mewn Perygl – Jen Green<br><br>Edrych ar ôl yr Amgylchedd<br><br>Pwyso a Mesur – Elgan Philip Davies<br><br>Dim ond Clic – gol. Eirian Jones, Glyn Saunders Jones<br><br>Dw i Eisiau Bod yn Enwog - Meleri Wyn James | Atebol<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004506<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004513<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004452<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004469<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004339<br><br>2010<br>ISBN: 9781907004343 | Deunydd ar amrywiaeth o destunau o ddiddordeb i bobl ifanc. Rhoddir pwyslais ar gyflwyno darnau pytiog o wybodaeth mewn arddull ddifyr. Anelwyd y deunyddiau at CA3 ond gellid eu defnyddio gyda darllenwyr anfoddog. | |

## Adnoddau Trawsgwricwlaidd

| Teitlau | Manylion cyhoeddi | Disgrifiad | Electronig |
|---|---|---|---|
| Llyfr y Ganrif – Andy Misell<br>( gol. Gwyn Jenkins/ Tegwyn Jones) | Y Lolfa 1999<br>ISBN: 0862435048 | Cofnod newyddiadurol, fesul blwyddyn o ddigwyddiadau pwysig yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. | |
| **Cyfres Diwrnod mewn Hanes**<br><br>Medi 11eg -addas. gan Elin Meek<br><br>Cwymp Wal Berlin- addas Eiry Miles<br><br>Y Dyn cyntaf yn y gofod. – addas. Elin Meek<br><br>Rhyddhau Neslon Mandela – addas. Elin Meek<br><br>Glanio Dydd–D – addas. Elin Meek | Gomer 2011/2012<br><br>SBN: 97818485127<br><br>ISBN: 9781848512801<br><br>ISBN: 9781848512818<br><br>ISBN: 9781848514355<br><br>ISBN: 9781848512771 | Cyfres o lyfrau ffeithiau a lluniau.<br><br>Cyflwynir yn gryno ddigwyddiadau Medi'r 11eg ynghyd â hanes gwrthdrawiadau diwylliannol eraill yn UDA.<br><br>Llyfr ffeithiau a lluniau am ddymchwel Wal Berlin.<br><br>Gwybodaeth am ymgyrchoedd i'r gofod ac am ofodwyr a lwyddodd ac a fethodd.<br><br>Gwybodaeth am ddylanwad enfawr Nelson Mandela ar ddiwedd cyfnod apartheid.<br><br>Hanes sut arweiniodd digwyddiadau'r Ail Ryfel Byd at Ionawr 6ed, 1944. | |
| Daearyddiaeth yn y Newyddion | Tinopolis | Cylchgrawn bob hanner tymor ar gyfer oed 11- 14 sy'n trafod eitemau daearyddol cyfredol. | e-gylchgrawn |
| D3 – addas. Gwenda Lloyd Wallace<br><br>5 rhifyn. | CAA | Cylchgrawn ar gyfer CA3 sy'n cynnwys erthyglau ar faterion daearyddol. Cynnwys fapiau, data, tasgau, gweithgareddau dilynol, geirfa a gwefannau defnyddiol. | https://www.aber.ac.uk/cy/caa/web-projects/issue1/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyddoniaeth yn y Newyddion | Tinopolis | Cylchgrawn ar gyfer oed 11- 16. Trafodir pynciau sy'n cael eu trafod yn y cyfryngau ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cwricwlwm. | e-gylchgrawn |
| Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu? | BBC | Casgliad o ddeunyddiau ar Dylan Thomas yn cynnwys canllaw gan Mererid Hopwood. | Gwefan BBC iWonder |
| Cymru dysgu uwchradd<br>Archif | BBC | Archif werthfawr o ddeunyddiau ffeithiol e.e. cyfres Catrin Stephens ar Hanes Cymru; Hanes Lleol; Campau ac ati. | Gwefan BBC - dysgu. |
| Clic i'ch Ysgol | GCaD Cymru | Deunyddiau addysgu ABCh ar gyfer CA4 | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Clic%20i'ch%20ysgol |
| Arwyr Chwaraeon | GCaD Cymru | Deunyddiau addysgu ar gyfer CA4. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Arwyr%20chwaraeon |
| Y Cod Teithio | Llywodraeth Cymru | Adnoddau ar gyfer dysgwyr CA3 i hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cod teithio. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=y%20cod%20teithio |
| TGCH mewn cyd-destun – Fferm Dulas/ Gorsaf Bwer y Bari/Gardd Fotaneg | ApAdgos | CA4- maes busnes/ galwedigaethol. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=TGCH%20mewn%20cyd-destun |
| Patagonia 150 | Atebol | Gwefan dairieithog wedi'i chreu i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i'r gwladfawyr Cymraeg cyntaf sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Anelwyd at CA3 ond gellir defnyddio rhannau o'r adnodd yn CA4. | Gwefan allanol. |
| Adnoddau ar y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd | Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru | Anelwyd ar gyfer CA3 ond gellid defnyddio'r wybodaeth a'r delweddau gyda darllenwyr anfoddog. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=adnoddau%20rhyfel%20byd%20cyntaf |

## Am ddarnau byw gweler:

| Cyhoeddiadau | Gwefannau Newyddion | Gwefannau Ieuenctid |
|---|---|---|
| Papurau Bro<br>Y Cymro<br>Golwg<br>Y Tir<br>Y Wawr<br>Y Selar<br>Taflenni Gwybodaeth | www.bbc.co.uk cymru<br>(Cymru fyw/ Ffeil)<br>www.golwg360.com<br>www.y-selar.com | www.urdd.org<br>www.yfc-wales.org.uk/cymraeg<br>info@childreninwales.org.uk<br>www.funkydragon.org<br>www.cynulliad.cymru<br>www.clybiauplantcymru.org |

## Ffurfiau Ysgrifennu

| Teitlau | Manylion cyhoeddi | Disgrifiad | Electronig |
|---|---|---|---|
| Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol | CBAC a GCaD Cymru | Ymdriniaeth ryngweithiol o'r genres cydnabyddiedig i gefnogi'r llyfr Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=datblygu%20ysgrifennu%20ffeithiol |
| Ffurfiau Ysgrifennu:<br>Adroddiad papur newydd/ Adolygiad/ Llythyr ffurfiol/ Stori arswyd/ Dyddiadur/Llythyr personol/ Traethawd Mynegi Barn/ Portread/ Ymson | Lisa Glyn | CA3 – canllawiau ysgrifennu i'w defnyddio gyda'r dosbarth cyfan ar y BGRh. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=ffurfiau%20ysgrifennu |
| Hwyl ar Ysgrifennu | Gol. Emyr Llywelyn, Llinos Dafis<br>Cwmni Iaith Cyf. 1998<br>ISBN: 1900563037 | Casgliad o wahanol ffurfiau o ysgrifennu creadigol ynghyd ag ymarferion i annog dysgwyr i greu eu gwaith creadigol eu hunain. | |
| Ffermydd Gwynt | GCcaD Cymru | Ymarfer Ysgrifennu – mynegi barn. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Ffermydd%20gwynt |
| Ymson Milwr | GCcaD Cymru | Pecyn gwers CA4 – ysgrifennu dychmygus. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Ymson%20milwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Storiau Safbwynt | GCaD Cymru | Cyfres o storiau rhyngweithiol. | Gwefan Hwb https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=storiau%20safbwynt |
| Cerddi | | Cyflwyno nodweddion haiku a limrigau. | Ffeiliau Activstudio – Gwefan Hwb https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?sort=recommendation&language=cy&query=cerddi |

## Sgiliau Prawf-ddarllen a Chywiro Iaith

| Teitlau | Manylion cyhoeddi | Disgrifiad | Electronig |
|---|---|---|---|
| Can Canllaw 1 – Mererid Hopwood<br><br>Can Canllaw 2 – Mererid Hopwood | Canolfan Peniarth 2014<br>ISBN: 9781783900190<br><br>ISBN: 9781783900206 | Addas ar gyfer TGAU a Lefel A. Canllawiau defnyddiol ar gyfer paratoi aseiniadau academaidd ynghyd ag ymarferion ar amryw elfennau gramadeg. | |
| Seren Iaith – Nona Breese a Bethan Clement | Atebol, Mehefin 2011<br>ISBN: 978190700485 | Llyfr adolygu rheolau iaith mewn tair rhan.Yn gyntaf, ymarferion ar elfennau unigol. Yn ail, ymarferion lle cyfunir yr elfennau hynny ac yn drydydd, yr atebion. Addas ar gyfer CA3/ CA4. | |
| Seren Iaith | Atebol, Awst 2011<br>ISBN: 9781907004947 | Meddalwedd sy'n cynnwys testun Seren Iaith ar ffurf dogfen PDF. | CD Rom |
| Seren Iaith 2 – Nona Breese a Bethan Clement | Atebol, Mai 2014<br>ISBN: 9781783900202 | Llawlyfr adolygu rheolau a chywiro iaith sy'n cynnwys 200 o ymarferion. Addas ar gyfer TGAU ac uwch. | |
| Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu – J. Elwyn Hughes | Gwasg Gomer<br>Argraffiad Newydd Diwygiedig 1997.<br>ISBN: 9781859025710 | Rhestr o eiriau a gamsillefir yn gyson, awgrymiadau ar sut i ysgrifennu'n gywir a chanllawiau gramadeg. | |
| Y Geiriadur Mawr – H. Meurig Evans | Gwasg Gomer 2003<br>ISBN: 9780850884623 | Geiriadur Cymraeg/Saesneg a Saesneg/Cymraeg. | |
| www.geiriadur.net | | Geiriadur | ar-lein |
| techiaith.bangor.ac.uk | | Geiriadur | ar-lein |
| Ap geiriadur | | Ap rhad ar gyfer android, iphone ac ipad. | ar-lein |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cywirdeb Iaith | Canolfan Peniarth 2013 | Pecyn o 50 gweithgaredd gramadegol rhyngweithiol i gefnogi dysgwyr. Delfrydol ar gyfer UG. | Gwefan allanol. |
| Ymarferion iaith | Telesgop 2010 (APADGOS)<br>Hwb | Adnoddau lliwgar sy'n darparu rheolau ac ymarferion ar gyfer CA4. Rhoddir sylw i ferfau, berfenwau, y dyfodol, yr amodol, cenedl enwau a threiglo. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=Ymarferion%20iaith |
| Treigliadau | Hwb | Addas ar gyfer CA4. | Ffeiliau Activstudio a Powerpoint. |
| Y fannod | Hwb | Ymarferion ar y fannod CA4. | Ffeil Activstudio. |
| Gweithgareddau Sillafu | Hwb | Cyfres o weithgareddau byr i ymarfer sillafu – CA4. | Ffeiliau Activstudio a Powerpoint. |
| Cwrs Iaith Blwyddyn 7<br>Cwrs Iaith Blwyddyn 8 | Sioned Mair Jones: Ysgol Bro Morgannwg - Hwb | Cyflwyniadau, nodiadau ac ymarferion iaith y gellir eu defnyddio ar draws y cyfnodau dysgu. | Powerpoint |
| Ymarferion Iaith:<br>Prif Lythrennau<br>Sillafu *y* neu *u* neu i<br>Sillafu *f* neu *ff*<br>Dyblu n<br>Sillafu *ei*, *eu* neu *ae*<br>*Question of*: Anagramau Chwaraeon<br>*Question of:* Idiomau /Diarhebion | GCaD Cymru - Hwb | Gemau iaith a chwisiau.<br>Ar gyfer Blwyddyn 7.<br><br>Ar gyfer Blwyddyn 8<br><br>Ar gyfer Blwyddyn 9. | ar-lein |
| Gramadeg Cymraeg | Tinopolis<br>(comisiynwyd gan APADGOS) | Adnodd ar gyfer TGAU ail iaith ond allai fod o fudd ar gyfer gloywi iaith. Cynnwys weithgareddau iaith rhyngweithiol. | Gwefan Hwb<br>https://hwb.wales.gov.uk/Resources/#browse?query=gramadeg%20cymraeg |